# papur priordy



**O DAD, YN DEULU DEDWYDD - Y DEUWN**
**Â DIOLCH O'R NEWYDD,**
**CANS O'TH LAW Y DAW BOB DYDD**
**EIN LLUNIAETH A'N LLAWENYDD.**
**AMEN**

**W D Williams**

***Dewiswyd gan Mwynwen Jones***
***Gweler y rheswm am ei dewis y tu mewn***

**Rhifyn 325**
**PAPUR MEDI 2019**

# Gair gan Beti-Wyn

## Rhosili

***MAE*** pentref a thraeth Rhosili ym Mhenrhyn Gŵyr yn adnabyddus am sawl rheswm. Yn un peth, mae yno un o'r traethau mwyaf godidog yn y wlad, a gwelir o hyd olion y cwch *Helvetia*, a longddrylliwyd ar noson stormus ar 1 Tachwedd 1887 yn pipo drwy'r tywod.



Yno hefyd, yn Eglwys Rhosili mae maen a ffenestr goffa i'r morwr Edgar Evans, a fu farw ar gwch Capten Scott yn y ras i'r Antartig ym 1912.

Neu, os ydych yn hoff o gerdded, does dim wâc well nag ar hyd y cawsai i Ben Pyrod (Worm's Head) pan fydd y llanw'n caniatáu! Mae ambell gerddwr annoeth yn cael ei ynysu gan y llanw ar Ben Pyrod yn rheolaidd!

Mae Rhosili wedi denu ymwelwyr ers degawdau. Ond eleni, fel y llynedd, roedd atyniad newydd yn denu twristiaid o bell, sef cae yn llawn blodau haul - dros 400,000 ohonynt!

Drwy'r haf, roedd miloedd wedi tyrru i Rosili i dynnu lluniau o'r cae o flodau melyn, gyda Phen Pyrod yn gefndir. Mae gwefannau cymdeithasol wedi'u boddi mewn lluniau o'r blodau. Daeth y caeau yn *"selfie hotspot*"!



Yn ôl y Gymdeithas Arddwriaethol Frenhinol, golygfa anghyffredin iawn yng Nghymru yw gweld cymaint o flodau haul mewn un man. Dim ond gwledydd sy'n mwynhau hafau hir a chynnes iawn sy'n dyst i'r fath wledd i'r llygaid.

Mae'r blodyn haul yn tyfu'n dal ag iddo ben melyn llachar. Wrth iddo dyfu, mae'n plygu i wynebu'r haul bob amser.

***TYBED*** a wnawn ni, wrth i ni dyfu ac aeddfedu yn y Ffydd barhau i blygu ym mhresenoldeb Duw, a throi ein hwyneb i'w wynebu ar bob achlysur?

**Gweddïwn**

Arglwydd,
caniatâ imi weld disgleirdeb dy ŵyneb
drwy niwl ein hoes,
ac o'i weld, deimlo cynhesrwydd dy wên.
Trwy Iesu Grist,



**Amen**

## DARLLENIADAU

| Mis Medi | Darlleniad |
|---|---|
| **Wythnos 1** | **Luc 14: 1, 7-14** |
| **Wythnos 2** | **Luc 14: 25-33** |
| **Wythnos 3** | **Luc 15: 1-10** |
| **Wythnos 4** | **Luc 16: 1-13** |
| **Wythnos 5** | **Luc 16: 19-31** |

**APÊL MIS MEDI**

Oes gennych chi hen sbectolau (yn cynnwys sbectolau haul) gartref? Dewch â nhw i'r Capel yn ystod mis Medi er mwyn i ni fedru cefnogi apêl *Vision Aid Overseas* sy'n darparu sbectolau i blant ac oedolion mewn gwledydd lle nad oes ganddynt yr un manteision â ni. Bydd yr apêl hon yn cael ei chynnal mewn partneriaeth â Celtic Opticians, Stryd Y Brenin, Caerfyrddin.

**Bydd blwch yn y capel ar gyfer derbyn yr hen sbectolau**

# ETHOL DIACONIAID NEWYDD DYDD SUL 3 TACHWEDD 2019

**Mae tymor y diaconiaid a gafodd eu hethol gennym yn 2012 yn prysur ddirwyn i ben. Byddwch yn cofio, dan ein rheoliadau newydd, mai cyfnod o saith mlynedd bellach yw tymor gwasanaeth diacon.**

**Y diaconiaid a gafodd eu hethol y pryd hwnnw oedd TIM HAYES, GARETH GRAVELL, EIRLYS JONES a CHRIS LLOYD. Mawr yw ein diolch am eu cyfraniad rhagorol dros y saith mlynedd diwethaf.**

**Gan fod pedwar yn gorffen a'n bod hefyd wedi cael nifer o golledion yn ystod y blynyddoedd diwethaf, rydym wedi penderfynu symud ymlaen i ethol<br>PUM DIACON NEWYDD y tro hwn.**

**Bydd pob aelod, felly, yn derbyn ffurflen bleidleisio drwy law'r dosbarthwyr yn ystod yr wythos sy'n dechrau 14 HYDREF 2019. Bydd angen dychwelyd pob pleidlais erbyn DYDD SUL, 3 TACHWEDD 2019, naill ai'n bersonol yn ystod yr oedfaon neu drwy'r dosbarthwyr. Bydd blwch ar gyfer derbyn pleidleisiau yng nghyntedd y capel.**

**Bydd enwau'r diaconiaid newydd yn cael eu cyhoeddi gan ein Gweinidog ar FORE SUL 10 TACHWEDD 2019. Byddant yn cael eu derbyn i'r ddiaconiaeth gan ein Gweinidog yn yr oedfa ar FORE SUL CYNTAF Y FLWYDDYN NEWYDD, sef<br>5 IONAWR 2020**

**A wnewch chi gofio, os gwelwch yn dda, nad oes hawl gennych i bleidleisio'r tro hwn dros y diaconiaid y mae eu tymor yn dirwyn i ben yn awr**

**Mae hawl gennych i bleidleisio am bump diacon newydd a hyderwn y bydd modd i chi ddefnyddio'ch pleidlais yn llawn. Fodd bynnag, os ydych yn dymuno pleidleisio i lai na phump yna mae hawl gennych i wneud hynny.**

**Os oes angen unrhyw wybodaeth bellach arnoch, mae croeso i chi gysylltu â'n Gweinidog neu un o'r diaconiaid.**

**Papur Priordy'n sgwrsio ag**

# ALISON PARSONS



**PP: Mae hi bron yn amser Bore Coffi Mwya'r Byd Macmillan unwaith eto! Tempus fugit! Rwyt ti wedi bod yn trefnu'r digwyddiad yn y Priordy ers tro nawr, Alison. Pryd dechreuaist ti a beth oedd y symbyliad?**

**PP**: Wedi colli Mam yn 2006, ro'n i'n awyddus i godi arian tuag at elusen Myeloma. A gyda help Gwenda Davies (Siswrn) a Siop Ddillad Honeypot trefnais noson wallt a ffasiwn. Bu'n llwyddiant mawr ac, er y gwaith caled, ro'n i wrth fy modd yn gallu cyflwyno siec o dros £3000. Wedi hyn ro'n i am barhau i godi arian i elusennau cancr a chlywais am fore coffi Macmillan. Yn 2008 felly, trefnais un yn fy ngweithle, lle cawsom lot o sbort a chyfeillgarwch wrth godi arian. Ar ôl i mi adael fy swydd ro'n i'n ystyried ble allwn i gynnal bore coffi lle roedd digon o le i gael stondinau a dyma feddwl am y Priordy. Cefais gefnogaeth yn syth gan Beti-Wyn a dyma drefnu'r bore coffi cyntaf yn 2010. Wnes i fyth ddychmygu mor llwyddiannus fyddai'r bore. Do'n i ddim am godi tâl mynediad gan fy mod yn teimlo y dylen ni fod yn agored i bawb, gyda phob un yn cyfrannu yn ôl ei ddymuniad ac mae hyn yn parhau. Erbyn hyn mae'n ddigwyddiad blynyddol ac rwy'n gwybod bod nifer o aelodau'r Priordy yn mwynhau'r gwmnïaeth. Roedd Dad yn browd iawn ein bod fel Eglwys yn codi arian at elusen cancr a bu wrth ei fodd yn ein helpu i osod y byrddau'n barod ar gyfer y bore. Mae dydd Gwener ola mis Medi gyda'r peth cynta sy'n mynd yn fy nyddiadur bob blwyddyn erbyn hyn.

**PP: Wel, pob hwyl i ti'r tro hwn unwaith eto. Oes gyda ti syniad faint o arian rwyt ti a dy dîm ymroddgar wedi'i godi hyd yma?**

**AP:** Rŷn ni wedi llwyddo i godi dros £1000 bob blwyddyn, ac yn y blynyddoedd cynnar pan o'n i'n cael nawdd gan y banc codwyd yn agos i £1500. Dw i ddim yn hollol siŵr faint rŷn ni wedi'i godi hyd yn hyn ond byddwn i'n amcangyfri ein bod yn agos at £10,000.

**PP: Wel ardderchog – ond beth am fynd yn ôl ychydig. Roedd Arwyn a Beryl, dy fam a dy dad, yn ffyddloniaid yn y Priordy ac rwyt ti a dy frawd Adrian yn blant yr eglwys. Oes gyda ti unrhyw atgofion arbennig am dy ddyddiau cynnar yma?**

**AP:** Mae gennyf lu o atgofion o fod yn blentyn yn y Priordy, o ddyddiau cynnar dysgu adnod bob nos Sadwrn ar gyfer cwrdd bore drannoeth hyd at gael Ysgol Sul yn y gegin gyda Wynne Jenkins gan ein bod yn rhy hen i Ysgol Sul y plant. Wrth reswm, doedd PIP ddim yn bodoli'r pryd hynny. Ro'n i'n aml yn canu yn y Cwrdd Plant neu yn Nrama'r Nadolig. Un Nadolig rwy'n cofio dweud wrth Dad nad oeddwn am ganu mwyach, ond ro'n i eisioes wedi cytuno i ganu "Asyn Bychan" a d'wedodd Dad ei bod hi'n rhy hwyr i dynnu'n ôl! Er mwyn sicrhau fy mod yn canu, cefais addewid o £1 ac na fyddwn yn gorfod canu'n unigol fyth eto. Felly *Asyn Bychan* oedd fy solo ola! Roedd y Gymanfa yn Heol Awst yn achlysur mawr, a chael cyhoeddi emyn ar ran y Priordy un flwyddyn yn anrhydedd. Mae bod yn rhan o gymdeithas Y Priordy'n bwysig iawn i mi, ac i Ffion hefyd. Rydw i'n falch fod Ffion wedi cael yr un cyfle â minnau i fod yn rhan o'r Ysgol Sul ac i gymryd rhan ym mhob agwedd ar waith y Priordy

**PP: Sonia ychydig am dy gwrs prifysgol, Alison a'r yrfa y penderfynaist ei dilyn.**

**AP:** Ro'n i am fod yn Weithiwr Cymdeithasol mor bell yn ôl â dwi'n ei gofio, ond roedd fy Mhrifathro, Mr Gareth Evans, yn credu y dylwn i fynd i astudio'r gyfraith ac wedi sôn wrth Mam a Dad am hyn. Ro'n i'n benderfynol nad oedd hyn yn apelio, a chefais ganiatâd felly i adael yr ysgol unwaith yr wythnos i wneud gwaith gwirfoddol yn y Gwasanaeth Prawf oedd wedi'i leoli yn Nheras Francis gyferbyn â hen Ysgol Bro Myrddin. Dw i'n credu i'r ysgol gytuno i mi fynd gan obeithio y byddai'r profiad yn newid fy meddwl am waith cymdeithasol! Mae 'na gysylltiad â'r Priordy yma, gan i mi gwrdd â Bronwen Wilkins a oedd yn Swyddog Prawf. Roedd Bronwen yn cynnal grŵp i droseddwyr benywaidd, ac ro'n i'n ymuno â nhw amser cinio i sgwrsio a chymdeithasu. Bues hefyd ar daith i Lansteffan, ac roedd y gwaith roedd Bronwen a'u chydweithwyr yn ei wneud wedi fy hysbrydoli a dyna selio fy nymuniad i wneud Gwaith Cymdeithasol. Es i Brifysgol Caerdydd i ddilyn gradd BSc Gweinyddiaeth Cymdeithasol ac yna gwrs blwyddyn o CQSW (Certficate of Qualification in Social Work)..

**PP: Tybed pa brofiadau dros y blynyddoedd yn y maes arbennig hwn rwyt ti'n eu trysori?**

**AP:** Cychwynais fy ngyrfa ym Merthyr gyda Thîm Troseddwyr Ifanc. Treuliais bedair blynedd yno ac mae'r profiad o weithio ym Merthyr wedi aros gyda fi. Rwy'n credu mai Merthyr yw'r ardal orau i mi weithio ynddi. Er bod tipyn o dlodi yna roedd caredigrwydd ac agosatrwydd y bobl yn dipyn o syndod. Ro'n i wedi prynu fy nhŷ cyntaf ym Mhontypridd ar y pryd ac yn teithio i fyny'r A470 bob bore, lle roedd golygfeydd godidog o'r niwl dros y dyffryn. Roedd symud i weithio yng Nghaerdydd ym 1991 yn newid byd a bu tipyn o hiraeth gennyf am Ferthyr am gyfnod hir. Cefais gyfle am secondiad ym 1994 i Dîm Maethu, a chydag ad-drefnu llywodraeth leol ym 1996 cael swydd fel rheolwr gyda'r tîm a oedd wedi'i leoli ym Mro Morgannwg. Er 1996, mae fy ngwaith i gyd wedi bod yn ymwneud â maethu plant. Ar ôl cael Ffion yn 1997 daeth y cyfle am swydd yn y sector breifat a bûm yn gweithio yno am dros 10 mlynedd tan i mi benderfynu cymryd blwyddyn i ffwrdd o'r gwaith yn gyfan gwbl

**PP: Erbyn hyn rwyt ti wedi arallgyfeirio, wel yn rhannol o leiaf - i fyd arlwyo!! Cam go fawr a mentrus?**

**AP:** Yn ystod fy mlwyddyn i ffwrdd es i i weithio am dridiau'r wythnos yn siop *Pethau Bychain* yn Stryd y Brenin (roedd Marian, y perchennog, wedi bod yn athrawes gerdd i mi yn yr ysgol ac ro'n i'n ymddiddori mewn dylunio mewnol).Tra o'n i yno datblygodd y berthynas gyda Hawys, merch Marian, a bues i a fy mhartner Steve yn ei chynghori ynglŷn â chychwyn '*Pethau Parod*'. Arweiniodd hyn at y penderfyniad i fuddsoddi a phrynu *Pethau Da* Stryd Mansel. Ro'n i hefyd yn y cyfamser wedi mynd i weithio i Gyngor Sir Gâr gyda'r tîm maethu. Y bwriad ar y cychwyn oedd i mi fod yn weithgar y tu ôl i'r llenni yn y caffi, ac i Hawys i fod yn y rheng flaen ond sylweddolon ni'n gyflym iawn fod angen pawb allan! A dyma fi felly'n dechrau gweini yn y caffi pan nad o'n i yn fy swydd arall. Bu rhaid i mi ddysgu'n gyflym iawn!! Ond wnes i fwynhau'n fawr. Erbyn hyn mae'r caffi'n rhedeg yn llwyddiannus iawn dan reolaeth Hawys a'r staff ac mae Steve yn swyddfa ddau ddiwrnod yr wythnos ac rydw i'n helpu pan fo angen.



**PP: Rydym yn ddiolchgar iawn i ti am fod mor barod i groesawu PIP (Pobl Ifainc y Priordy) ar fore Sul *i Pethau Da* bob yn hyn a hyn i fwynhau brecwast ond hefyd i gyllunio ambell weithgarwch dyngarol. Yn clywed eu bod yn mwynhau mas draw!**
**AP:** Rydyn ninnau'n mwynhau'n fawr iawn hefyd. Mae aelodau'r Priordy'n gwsmeriaid da ac mae'n hyfryd cael y cyfle i groesawu'r bobl ifanc i frecwast neu de prynhawn. Rydym yn ceisio cefnogu elusennau lleol pryd bynnag y gallwn.

**PP: Mae dy lun di ym *Mhapur Priordy'n* eitha aml y dyddiau hyn, Alison, a hefyd dy ferch Ffion, gan eich bod yn rhan o dim *Agor y Llyfr* – cynllun sy'n cyflwyno storïau Beiblaidd i blant ysgol cynradd. Sut wyt ti a Ffion yn mwynhau'r profiad hwn?**
**AP:** Mae Ffion a minnau wrth ein bodd i fod yn rhan o dîm *Agor y Llyfr*,



er fy mod yn nerfus iawn ar y dechrau, rhaid cyfaddef. Pleser yw gweld wynebau'r plant wrth i ni gyflwyno stori ac rydym wedi datblygu'n sgiliau actio wrth fynd yn ein blaen!!

**PP: Ac un cwestiwn arall i gloi, Alison. Beth am y dyfodol? Tybed a oes unrhyw brosiectau anturus eraill gennyt mewn golwg?!**
**AP:** Does dim unrhyw brosiect arall ar y gweill ar hyn o bryd, ond pwy a wŷr…………!

***Llawer iawn o ddiolch i ti am ateb y cwestiynau Alison ac edrychwn ymlaen yn awr at y Bore Coffi ar Ddydd Gwener 27 Medi yn Festri'r Priordy.***

**BORE COFFI McMILLAN**
***Yn rhan o Fore Coffi Mwya'r Byd***



**Dydd Gwener 27 Medi 2019**
**Festri'r Priordy 9.30 tan 12.00**
**Mynediad am ddim**

**Stondinau Cynnyrch Cartref a Raffl**

**Am ragor o wybodaeth, neu i gynnig eich help ac unrhyw gyfraniad at y raffl neu'r stondin cacennau cysylltwch ag Alison Parsons, os gwelwch yn dda**

# STONDIN BRYSUR Y PRIORDY YNG NGŴYL CANOL DRE CAERFYRDDIN 2019



GŴYL CANOL DRE
CAERFYRDDIN








Catrin Wyn Davies…

# GWIRFODDOLI YM MECSICO



***AR ÔL*** mwynhau teithio o amgylch De a Chanolbarth America y llynedd, ro'n i'n ysu am sialens newydd! Derbyniais swydd wirfoddol fel addysgwr clinigol ffiosiotherapi i fyfyrwyr o Brifysgol Keele ac o fewn tri mis i ddychwelyd adref o Ciwba (*gweler Papur Priordy mis Chwefror*), bant â fi eto i Fecsico!

Ro'n i'n gyfarwydd â'r rôl o fod yn addysgwr clinigol pan o'n i'n gweithio fel ffisiotherapydd yn Llundain ond gan fy mod yr ochr arall i'r byd y tro hwn, roedd yna sialensau newydd - iaith, diwylliant a system iechyd gwahanol. Ro'n i'n gwirfyddoli i '*Therapies Unite',* elusen yn y Deyrnas Unedig sy'n gweithio ar y cyd â Phrifysgol Keele er mwyn i fyfyrwyr yn eu blwyddyn olaf o hyfforddiant gael profiad ym maes ffisiotherapi.

Mae *Therapies Unite* yn elusen wedi'i sefydlu yn Puerto Vallarta, Mecisco ac yn gweithio gyda phlant ac oedolion ag anableddau gwahanol, sy'n byw heb offer ac adnoddau syml i'w helpu gyda'u bywydau bob dydd. Mae'r elusen yn darparu adnoddau, offer a therapi na fyddai pobl yn gallu'u hyfforddio fel arfer. Gwneud gwahaniaeth parhaol yw'r bwriad, trwy ddarparu addysg i gleifion a'u teuluoedd, athrawon, gofalwyr a darparwyr meddygol. Rŷn ni'n canolbwyntio'r hyfforddi ar ddatblygu dulliau o gynyddu annibyniaeth a safon byw'r cleifion, er gwaethaf eu cyflwr. Ar hyn o bryd rŷ'n ni'n dibynnu llawer ar noddwyr ac ar roddion. Rŷn ni wedi derbyn rhoddion fel caderiau olwyn, beiciau wedi'u haddasu, cadeiriau arbenigol a chymhorthion symudedd diangen o bedwar ban byd.



Roedd yn brofiad anhygoel ond do'n i ddim yn disgwyl y byddai mor heriol. Ro'n i'n gweithio gyda chleifion yn eu cartrefi mewn tref gwyliau dwristaidd. Ro'n i'n gweld y gwestai pum seren, moethus ond

hefyd, heb fod yn bell i ffwrdd,  lawer o dlodi. Rwy'n cofio ymweld ag un teulu'n byw mewn un ystafell a'r person anabl yn gorwedd ar y llawr.  Mae'n galed hefyd gan nad oes modd cymharu'u system iechyd nhw ag un ni o gwbl.  Mae pobl yn cwyno am ein Gwasanaeth Iechyd ni ond o'i osod mewn cyd-destun ehangach, rŷ'n ni'n ffodus iawn. Roedd gweld pobl heb ddim yn sioc enfawr  i mi.

Ro'n i a'r myfyrwyr yn gweithio gydag un bachgen o'r enw Oswaldo - bachen bach 13 oed gyda pharlys yr ymennydd yn byw gyda'i fam-gu. Roedd e'n methu cerdded, rheoli symudiau'i gorff na bwydo'i hun. Doedd e ddim yn cael addysg gan nad oedd yr adnoddau na'r cryfder gan y fam-gu i'w gludo i'r ysgol. Er ei fod yn fachgen galluog, yr unig beth roedd yn ei wneud oedd gorwedd ar y gwely trwy'r dydd a methu symud. Gwnaeth y myfyrwyr sedd arbenigol iddo o gardfwrdd. Mae'r dull yn cael ei adnabod fe APT (Appropriate Paper-based Technology), sef y syniad o wneud offer cost effeithiol o gardfwrdd sy'n ddigon cadarn i gynnal oedolion. Ro'n ni wedi gwenud sedd arbenigol a stôl i Oswaldo a nawr mae e'n gallu cymdeithasu ar yr un lefel llygaid â ni ac eistedd lan i wylio'r teledu, cyfathrebu a bwyta.  Roedd yn brofiad anhygoel i allu defnyddio'n sgiliau fel hyn ac ro'n i'n aml yn gorfod bod yn greadigol!





Yn ogystal â gweld cleifion yn eu cartrefi, ro'n i hefyd yn eu gweld yn y pwll nofio. Mae pobl anabl yn gallu gwneud llawer mwy yn y dŵr, er enghraifft symud eu cyhyrau'n fwy, cerdded a gweithio ar eu cydbwysedd. Ry'n ni'n defnyddio'r cysyniad '*Halliwick*' sy'n dysgu plant a phobl gydag anableddau sut i nofio. Dw i'n mynd i gael hyfforddiant swyddogol yn y cysyniad hwn cyn bo hir fel fy mod yn gallu dysgu ffisiotherapyddion o Fecsio sut i barhau gyda'r dechneg hyn ym maes therapi. Dw i ar hyn o bryd yn casglu offer arbenigol ar gyfer *Therapies Unite* i'w cludo mewn llong a'u dosbarthu pan fyddaf

yn dychwelyd i Fecsico. Dw i'n barod wedi derbyn adnoddau gan Ysbyty Rookwood yng Nghaerdydd ac Ysgol Craig y Parc, Caerdydd – ysgol i blant ac anableddau. Os oes gyda chi unrhyw offer diangen yr hoffech eu rhoi, yna cysylltwch â fi ar yr ebost catrinwyndavies@gmail.com. os gwelwch yn dda.





***DW I HEFYD*** yn trefnu bore coffi i godi arian at yr elusen *Therapies Unite*. Ymunwch â fi ar ôl y cwrdd yn y Priordy ar 3 Tachwedd am baned a sgwrs! Diolch.

**NODWCH Y DYDDIAD!**

**BORE COFFI THERAPIES UNITE**

**Bore Sul - 3 Tachwedd - Wedi'r Cwrdd Plant**

**Festri'r Priordy**

**Croeso cynnes i bawb**



Therapies Unite

# DIOLCH YN FAWR

***Cydnabyddir yn ddiolchgar gyfraniad***

## LEN RICHARDS
## Nantgaredig

***at gyhoeddi'r Papur y mis hwn***

***Maer Caerfyrddin***
***Neuadd Ddinesig San Pedr***
***Caerfyrddin***

***GWAHODDIAD***

**Ar ran Cyngor Tref Caerfyrddin hoffwn eich gwahodd i ymuno gyda ni a Chyngor Sir Caerfyrddin i godi Baner Heddwch Rhyngwladol ar Sadwrn 21 Medi 2019.**

**Cynhelir y seremoni fer hon am hanner dydd (12.00) ar y Clos Mawr, Caerfyrddin ar y cyd ag aelodau Cymdeithas y Cymod a chynrychiolwyr ieuenctid y dref a'r ardal. Disgwylir i'r cyfan ddod i ben o fewn rhyw hanner awr.**

**Clustnodwyd 21 Medi fel Diwrnod Heddwch Rhyngwladol gan y Cenhedloedd Unedig, a thros y blynyddoedd mae tref Caerfyrddin wedi nodi'r achlysur pwysig hwn. Ein gobaith yw y bydd y seremoni eleni, a ninnau wedi nodi canrif ers diwedd y rhyfel byd cyntaf, yn anogaeth i drefi a chymunedau eraill gynnal digwyddiad tebyg eu hunain yn y dyfodol.**

**(Os bydd y tywydd yn anffafriol cynhelir y digwyddiad yn Neuadd San Pedr yn ymyl.)**

**Edrychwn ymlaen yn fawr iawn at gael eich cwmni ar y dydd arbennig hwn,**

**Yn gywir iawn**

**Jeff Thomas**

**(Maer Tref Caerfyrddin)**

# SUL SBESIAL




***DENWYD*** nifer da i'r Egin ar gyfer y Sul Sbesial a drefnwyd gan Annibynwyr Cyfundeb Gorllewin Caerfyrddin.

Roedd y rhannau arweiniol yng ngofal Ethan,Tomos, Jona a Miriam, aelodau yn Ysgol Sul y Priordy. Cyflwynwyd dameg y Ddafad Golledig ganddynt mewn dull cyffrous gyda'r gynulleidfa'n ymuno yn y mannau priodol gydag un o'r ebychiadau 'Meee!, O na! neu Hwre!' pan fyddai Beti-Wyn yn codi arwydd i ni wneud hynny!



Buom yn canu amryw o emynau, gyda Band y Priordy'n cyfeilio, cyn i ni ymrannu'n grwpiau. Aeth y plant am Fwrlwm Bro gyda Nigel Davies, MIC, yr ieuenctid gyda Rhodri D'Arcy i'r caffi seiber am sesiwn Ffilmio a Golygu tra arhosodd yr oedolion ar gyfer dau ddigwyddiad. Sesiwn holi ac ateb oedd y cyntaf gyda'r cyn chwaraewr rygbi **Emyr Lewis** yn cael ei holi gan Iola Wyn. Daethom i wybod sut cafodd Emyr ei aileni a'r dylanwad mae'r ffydd Gristnogol yn ei chael ar ei ffordd o fyw.  Yn yr ail sesiwn cawsom gyflwyniad i weithgarwch Cymdeithas y Beibl gan y cyfarwyddwr newydd yng Nghymru, **Meleri Cray.** Soniodd am yr amrywiol brosiectau sydd ar gael dan faner y Gymdeithas yng Nghymru a ledled y byd. Un o'r rheiny yw **Agor y Llyfr** - cynllun i alluogi eglwysi i greu cysylltiad â'u hysgol leol drwy ymweld yn gyson i ddarllen stori Feiblaidd i'r plant.





Ar ddiwedd y prynhawn dychwelodd pawb at ei gilydd unwaith eto. Cawsom flasu peth o ffwyth gwaith grŵp MIC. Cyflwynwyd y

diolchiadau gan Aelonwy Phillips, Is Lywydd Cyfundeb Gorllewin Caerfyrddin.  Roedd pob un ohonom wedi llofnodi'n henw ar stribed o bapur lliwgar wrth ddod i mewn i'r Egin ac erbyn hyn roedd y rhain wedi'u cysylltu â'i gilydd, stribed wrth stribed, i ffurfio cadwyn a honno'n arwydd ein bod wedi'n clymu ynghyd yng nghariad Duw drwy Iesu ar y prynhawn arbennig hwn.

Roedd cyfleusterau modern yr Egin yn hwyluso'r holl weithgareddau a'r cymdeithasu a'r ffaith nad oedd angen gofidio am barcio'n coroni prynhawn da!

**OEDFA UNDEBOL O WERTHFAWROGIAD I'R PARCHEDIG PETER CUTTS**

**Dydd Sul, 14 Gorffennaf 2019**



Trefnwyd yr oedfa arbennig hon, gan fod y Parchedig Peter Cutts yn ymddeol fel Gweinidog yn y Tabernacl, Caerfyrddin, Bethania, Talog a Noddfa Foelcwan.

Fel y gwyddoch hefyd, bu cydweithio agos rhwng  Beti-Wyn a Peter Cutts dros y blynyddoedd a hynny'n ymestyn y tu hwnt i furiau'r ddau gapel.

Doedd hi ddim yn bosibl i bob un ohonom fod yn bresennol yn yr oedfa o'r dechrau'n deg oherwydd galwadau'r Sul Sbesial ond cawsom flasu peth ohoni a'r diolch a fynegwyd i Peter a'i briod Lyn am eu gweithgarwch a'u ffyddlondeb dros y bynyddoedd.

Llywydd yr oedfa oedd y Parchedig Ddr Desmond Davies, cyn-Weinidog, a'r organydd oedd Enid Jones.

Yn ystod y te yn y Festri yn dilyn yr Oedfa, mynegwyd gair o ddiolch a gwerthfawrogiad i Peter a Lyn gan Beti-Wyn ar ran ei chyd-weinidogion a'n tref.

Dymunwn y gorau i Peter a Lyn i'r dyfodol ac yn eu rôl bwysig hefyd fel taid a nain!

**PICNIC  DIWEDD TYMOR YR YSGOL SUL YN Y PARC  PICNIC**
**DYDD SUL 7 GORFFENNAF 2019**














# LLYFRAU NEWYDD




Deunaw o bregethau cyflawn, awgrymiadau o ddarlleniadau Beiblaidd addas, gweddi gysylltiol a rhestrau o emynau priodol

**Y TIR YSGYTHROG**
Cyfrol o Wasanaethau
Desmond Davies
Mehefin 2019
Cyhoeddiadau'r Gair
£9.99

**YR ALWAD**
Aled Davies, Beti-Wyn James
Cyhoeddiadau'r Gair
Mai 2019
£8.99




Cyfrol o fywgraffiadau 18 o weinidogion Cymru, yn olrhain hanes eu galwad i'r Weinidogaeth Gristnogol

**EIN GŴYL, EIN TREF AC IOLO**
Tudur Dylan Jones ac Aled Evans
Cyfrol Dathlu Daucanmlwyddiant Uno'r Orsedd a'r Eisteddfod: Eisteddfod Caerfyrddin 1819




Yr Ysgol Farddol £5.00

*Ar gael gan Peter Hughes Griffiths*




Cyhoeddiadau'r Gair
Mehefin 2019
£9.99

**GEIRIAU FFYDD 3**
John Treharne
Cyfrol o fyfyrdodau Beiblaidd ar 100 o adnodau mwyaf poblogaidd ac adnabyddus yr Hen Destament

## DOSBARTHU TAFLEN WYBODAETH




Ddiwedd Awst, fel paratoad ar gyfer Tymor yr Hydref, bu criw o'r Priordy'n dosbarthu taflen wybodaeth o gwmpas rhai o stadau a strydoedd y dref yn tynnu sylw at wasanaethau a gweithgareddau'r Priordy. Taflen liwgar a chryno yw hon yn cynnwys lluniau ac ychydig o brint.

Rydym yn ddiolchgar iawn i Gwyn Bowyer am noddi'r fenter anturus hon.

Y gobaith yw cynnal y fenter drwy ddosbarthu taflen ar yr un patrwm, yn cynnwys manylion tymhorol, ar wahanol adegau o'r flwyddyn ac, o bosib, mewn gwahanol stadau a strydoedd.

## Cinio Dydd Sul yr Ofalaeth
## Dydd Sul, 20 Hydref 2019



*yn*g

**Ngwesty'r Llwyn Iorwg, Caerfyrddin**

am 1.00 o'r gloch yn brydlon

Pris: £18 y pen

Enwau ar y daflen yn y cyntedd cyn gynted â phosib os gwelwch yn dda

*Trefnir gan Gapel Cana*

**GERAINT LOVGREEN A'R ENW DA**



***yn perfformio caneuon newydd ynghyd â rhai o'r hen ffefrynnau***

**Nos Wener 13 Medi 2019 - 7.30**
**Theatr y Lyric, Caerfyrddin**

***Tocynnau: ☎0345 226 3510***

## GŴYL MAWL MEDI
## Dydd Sul 29 Medi 2019 – Y Priordy

**Yn y bore am 10**
**Hwyl Mawl Medi**
***gyda'r***
**Plant a'r Bobl Ifainc**
**Arweinydd**
**Rhys Griffiths**
***a***
**Band y Priordy**

**Yn yr hwyr am 5**
**Cymanfa Ganu**
**Arweinydd**
**Rhys Griffiths**
**Eitemau**
***gan***
**Gôr Meibion**
**Caerfyrddin**

**EMYNAU'R GYMANFA – RHAGLEN CYMANFAOEDD CANU 2018-19**

**Llanfair (17) Arwelfa (21) Catrina (22) Distewch (19)**
**Fflint (16) Ellers (13)**
**Ysgwrn (14) Bodedern (20)**

**RHAGLENNI AR GAEL GAN Y DR HUW MICHAEL NEU WRTH Y DRWS**

**YMARFERION YR OEDOLION gyda HELEN GIBBON**

**Nos Sul**
**15 Medi 2019 am 6**
**Y Priordy**

**Nos Sul**
**22 Medi 2019 am 6**
**Y Priordy**

**CYTÛN CAERFYRDDIN**

Cynhelir y cyfarfod nesaf ar Nos Lun, 23 Medi 2019 am 7 yn Festri Capel y Bedyddwyr Saesneg

**CYNGOR YSGOLION SUL AC ADDYSG GRISTNOGOL CYMRU**
***yn cynnal***
**CYFARFOD CYFLWYNO A  GWOBRWYO MEDALAU G**
**I FFYDDLONIAID YR YSGOL SUL YN Y DE**



***Cyfle i glywed am newyddion diweddaraf yr Ysgol Sul yng Nghymru a chyfle i edrych ar yr adnoddau newydd sydd ar gael***

***DYDD SADWRN 21 MEDI 2019 – Y PRIORDY – 2.00***
***Croeso cynnes i bawb***

***Bydd 33 o fedalau Thomas a Suzannah Gee yn cael eu cyflwyno eleni mewn dwy seremoni ym Mangor a Chaerfyrddin yn ystod mis Medi. Bydd y canlynol yn derbyn y fedal yng nghyfarfod adran y de yn y Priordy: Delun Callon, Capel y Tabernacl, Caerdydd, Elizabeth Ann Davies, Capel Peniel, Caerfyrddin, Robin Gwyndaf, Capel y Tabernacl Caerdydd, Brynmor James Harries, Capel Pen-y-bont, Cas-blaidd ac Elizabeth Ann Jones, Capel y Tabernacl, Pencader.***

**CYMDEITHAS DDIWYLLIADOL**
**CAPELI HEOL AWST A SMYRNA**

**CYNGERDD CÔR MEIBION MACHYNLLETH**
**Nos Sadwrn, 12 Hydref 2019 – 7 o'r gloch**
**yn Heol Awst**
***Elw at Uned Cancr y Fron, Ysbyty Tywysog  Philip, Llanelli***

## AGOR Y LLYFR YN YSGOL Y DDERWEN
## GORFFENNAF 2019




## NANO EVANS YN DERBYN BLODAU GAN BETI-WYN AR RAN Y PRIORDY AR DDIWRNOD EI PHEN-BLWYDD YN 90 AR 18 AWST 2019



# Ifanc@Priordy

**Wehei!**
Croeso 'nôl i bawb wedi gwyliau'r haf. Gobeithio i chi gael amser i ymlacio a mwynhau!

**Tymor Newydd**

Mae rhaglen yr Ysgol Sul wedi'i threfnu ar gyfer y tymor a'r flwyddyn newydd, gyda lot o bethau cyffrous a newydd ar y gweill! Gwyliwch y gofod!

Pob hwyl i bawb ar gychwyn tymor ysgol newydd.

**PIP**


Mae nifer o blant wedi gadael yr ysgol gynradd am



yr Ysgol uwchradd ac felly'n dod yn aelodau newydd o PIP. Croeso i'r PIPS newydd: Meg Lewis, Tomos Axford, Marged Jones, Ffion Norgrove, Jac Thomas Davies, Jona Marks a Tomos Lewis.

**Llongyfarchiadau…**

i bawb o PIP sydd wedi llwyddo yn yr arholiadau TGAU, AS neu lefel A. Prowd iawn ohonoch, ond cofiwch, rydych chi i gyd yn A* yn ein golwg ni yn Y Priordy!



**Cwpl o bethau i'w nodi….**
Dydd Sul, Medi 22, bydd yr Ysgol Sul yn ymweld â Chartref Erw Hir a bydd PIP yn mynd ar daith.

**Hwyl Mawl Medi**
Yn Y Priordy, fore Sul, Medi 29.
Oedfa i'r plant a'r bobl ifanc. Canu emynau a chaneuon adnabyddus a hip gyda'r band. Dewch yn llu (dim emynau oedolion).





**Diolchgarwch**
Bore Sul, Hydref 6 - ein cwrdd diolchgarwch. Pawb i ddod â chyfraniadau tuag at y Banc Bwyd os gwelwch yn dda.

| | **Ysgol Sul a** | **PIP** |
|---|---|---|
| **Medi 1** | **Cwrdd Plant a** | **Phobl Ifanc** |
| **Medi 8** | **Ysgol Sul** | **PIP** |
| **Medi 15** | **Ysgol Sul** | **PIP i aros lan** |
| **Medi 22** | **Erw Hir** | **PIP ar daith** |
| **Medi 29** | **Hwyl Mawl** | **Medi** |
| **Hydref 6** | **Diolchgarwch** | **Diolchgarwch** |

Tŵdlŵ am y tro!
Beti-Wyn

**CATRIN TOMOS YN DERBYN RHODD GAN Y PRIORDY AR DDIWEDD EI CHYFNOD YN CYSGODI BETI-WYN**




**DEWI SNELSON YN CYMRYD RHAN YN RAS YR WYDDFA**



# CWIS MEDI



**Mae pob ateb yn dechrau gyda'r llythyren 'M'**

**Mae'r atebion i gyd yn y Beibl**

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | M | | | | | | | |
| 2 | M | | | | | | | |
| 3 | M | | | | | | | |
| 4 | M | | | | | | | |
| 5 | M | | | | | | | |

## Cliwiau

| | |
|---|---|
| 1 | Offeryn i ddal adar a chreaduriaid eraill (Diarhebion 7: 23) |
| 2 | Mab Enoch a thad Lamech. Roedd ei oes gyfan yn naw cant chwe deg a naw o flynyddoedd. (Genesis 5: 22) |
| 3 | Tref yn anialwch Jwda (Josua 15:61) |
| 4 | Llu mawr (Salm 3: 6) |
| 5 | Yr ymborth a ddisgynnai gyda gwlith y bore i'r Israeliaid yn anialwch Sin (Exodus 16: 35) |

***Rhowch gynnig arni – a dod i adnabod y Beibl yn well!***
***Atebion yn y rhifyn nesaf***

**ATEBION CWIS GORFFENNAF /AWST**

***1. Goliath 2 Glawswelltyn 3 Gorchudd 4 Gabriel 5 Gradell***

**Papur Priordy'n cofio….**

# JOSEPH MEDICOTT SCRIVEN

## (1819-1886)



Mae'n ddeucanmlwyddiant geni cyfansoddwr un o'r emynau Saesneg mwyaf adnabyddus yn y byd i gyd y mis hwn.

Enw'r cyfansoddwr yw Joseph Medicott Scriven a'r emyn *What a friend we have in Jesus*.

Cafodd Scriven ei eni ar 10 Medi 1819, i deulu llewyrchus yn Banbridge, County Down yng Ngogledd Iwerddon. Aeth i Goleg Milwrol Addiscombe yn ymyl Llundain o 1837 i 1839 i baratoi ar gyfer gwasanaethu yn India ond tynnodd yn ôl ar dir iechyd. Ym 1842, derbyniodd radd yng Ngholeg y Drindod Dulyn a thua'r adeg yma daeth yn aelod o'r Brodyr Plymouth.




Roedd wedi dyweddïo a phethau'n edrych ar i fyny iddo pan ddaeth cwmwl du dros ei fywyd yn annisgwyl iawn. Boddwyd ei ddyweddi ym 1843 pan gwympodd oddi ar ei cheffyl i Afon Bann y noson cyn eu priodas.

Ymfudodd i Ontario, Canada ym 1845. Daeth yn ôl am ychydig oherwydd salwch ond dychwelodd yno ym 1847. Bu'n athro yn Woodstock a Brantford yn Ne Ontario cyn symud wedyn i Bewdley yn ymyl Port Hope. Yn ardal Bewdley bu'n diwtor i deulu Pengelly.

Dyweddïodd unwaith eto ag Eliza Roche, perthynas i deulu Pengelly, ond daeth anffawd i'w ran am yr eildro. Bu Eliza farw ym 1860 cyn iddynt briodi.

Treuliodd weddill ei fywyd yn pregethu, tiwtora a helpu eraill. Mae'n debyg i'w ofidiau personol ei wneud yn fwy ymwybodol o

anghenion y tlawd a'r anghenus, yr hen a'r methedig a chysegrodd ei fywyd i'w cynorthwyo.

Yn ystod blynyddoedd olaf ei fywyd roedd ei iechyd yn wael ac iselder yn ei boeni. Collodd ei fywyd drwy foddi yn Bewdley 10 Awst 1886 ond does neb yn sicr o dan ba amgylchiadau. Fe'i claddwyd ym mynwent Pengelly yn y bedd nesaf at ei ail ddyweddi - heb unrhyw gofeb. Codwyd cofeb iddo yno ym 1920.

Ysgrifennodd Scriven gerdd *Pray without Ceasing* tua 1855, er mwyn cysuro'i fam yn Iwerddon yn ei salwch difrifol ac yntau'n parhau i fod yng Nghanada. Anfonodd y gerdd gyda llythyr. Ar ôl marw'i fam, daethpwyd o hyd i'r gerdd yn ei phapurau ond roedd wedi'i gwahanu oddi wrth y llythyr ac felly doedd neb yn gwybod pwy oedd wedi'i chyfansoddi. Cafodd y gerdd ei chopïo a'i hanfon o gwmpas. Flynyddoedd yn ddiweddarach, ym 1868, gosodwyd y darn i gerddoriaeth gan **Charles Crozat Converse** (1832-1918). atwrnai a chyfansoddwr o Warren yn Massachusetts, a daeth i'w adnabod fel yr emyn *What a friend we have in Jesus.* Tyfodd mewn poblogrwydd ond parhaodd y geiriau'n ddienw. Yn ystod gwaeledd olaf Scriven y canfyddwyd mwy o wybodaeth am y gwaith - a hynny drwy hap a damwain. Galwodd cyfaill arno a gweld copi o'r gwaith wrth ochr ei wely. Ar ôl i'r cyfaill ei holi yn ei gylch dywedodd: *The Lord and I did it between us*'.



Dyw'r emyn ddim yn ymddangos yn y *New English Hymnal* (1986) na'r atodiad *New English Praise (*2016). Ym marn rhai, mae'n rhy sentimental ei naws ac yn emyn i'w ganu gan grwpiau gosbel a chantorion pop. Eto i gyd, pan gynhaliodd y BBC bleidlais yn 2013 i ddod o hyd i'r emyn mwyaf poblogaidd yn nhyb y cyhoedd, gosodwyd *What a friend we have in Jesus* yn yr ugain cyntaf o gant. Tybed a gaiff ei gynnwys yn y *New English Hymnal* diwygiedig sydd i'w gyhoeddi'r flwyddyn hon?

Troswyd yr emyn i'r Gymraeg gan Aaron Morgan, Blaen-ffos (1855-1925) a W Nantlais Williams (Nantlais) (1874-1959), brodor o Lawr Cwrt, Gwyddgrug, Sir Gâr. Fersiwn Nantlais sydd i'w gweld yn *Caneuon Ffydd - Rhif 345.* Pwnc yr emyn yw cyfeillgarwch Iesu,

rhywbeth arbennig iawn - yn enwedig i'r unig a'r anghenus Mae'r geiriau hefyd wedi'u cysylltu â thonau eraill ar wahân i un *Converse*, yn cynnwys *Calon Lân.*



A dyma ddyfynu pennill cyntaf yr emyn yn Saesneg a Chymraeg i orffen, y naill gan Scriven a'r llall gan **Nantlais**:

| | |
|---|---|
| What a Friend we have in Jesus,<br>All our sins and griefs to bear!<br>What a privilege to carry<br>Everything to God in prayer!<br>O what peace we often forfeit,<br>O what needless pain we bear,<br>All because we do not carry<br>Everything to God in prayer! | O'r fath gyfaill ydyw'r Iesu,<br>ffrind ymhob ystorom gref;<br>O'r fath fraint yw mynd â'r cyfan<br>yn ein gweddi ato ef.<br>O'r tangnefedd pur a gollwn,<br>O'r pryderon 'rŷm yn dwyn,<br>am na cheisiwn fynd yn gyson<br>ato ef i ddweud ein cwyn. |

# 'Agor y Gair'

***Cyfres Newydd o Astudiaethau Beiblaidd Cymraeg yng Nghaerfyrddin***

**Boreau Mercher 9, 16, 23 Hydref a 6 Tachwedd 2019**
**11.00 tan 12.00**
***dan arweiniad***
**Beti-Wyn**

**Canolfan 'Yr Atom', Stryd y Brenin, Caerfyrddin**

**Croeso cynnes iawn i bawb**

**CARTREF PLAS-Y-DDERWEN**
**GWASANAETH DIOLCHGARWCH**
***gyda'n***
**Gweinidog**
**Dydd Gwener 20 Medi 2019 am 2 y prynhawn**
**Sylwer ar y Newid Amser**
***Croeso cynnes i bawb***



# MWY O LUNIAU PICNIC YR YSGOL SUL










## TUDALEN BLAEN

**Rheswm Mwynwen Jones dros ddewis '*O Dad yn deulu dedwydd….*'**



Derbyniais y gwahoddiad i ddewis gair bach ar gyfer Papur Priordy'n ddigon di-hid. O'r holl adnodau sydd yn y Beibl, pwy feddyliai y byddai hon yn sialens. Bûm yn meddwl 'nôl i'm plentyndod a meddwl beth fyddai fy nhad-cu wedi'i ddewis. Pam dad-cu? Wel, roedd yn pregethu ychydig ac roedd silffoedd o lyfrau ganddo am emynwyr a gweinidogion ac eraill yn dehongli'r Beibl. Roedd wedi astudio'r rhain i gyd o glawr i glawr a'u cynnwys yn llifo o'i gof. Byddai nodiadau mewn beiro ar ochr nifer o'r tudalennau yn ei lawysgrifen gain. Llyfrau tad-cu oedden nhw nad oedden ni fel plant yn cael cyffwrdd ynddynt ond roeddwn wastad yn ysu am gael eu byseddu. Tasg hawdd fyddai hon iddo ef a phleser pur.

Daeth ambell syniad i'r meddwl - ond wrth y bwrdd bwyd yn nhŷ fy rhieni daeth fflach o ysbrydoliaeth pan welais y darn pren hwn gyda'r weddi hon arni!



Bob tro y byddem yn ymweld â fy nhad-cu a mam-gu ar aelwyd gynnes Pentwyn yng Nghapel Isaac, doedd dim gadael heb rannu pryd bwyd ac fe fyddai rhaid dweud gras cyn dechrau bwyta. '*Dwylo gyda'i gilydd a llygad ynghau*'...ond rwy'n cyffesu ambell dro i mi gael pip fach slei ar y geiriau oedd yn hongian yn y gegin cyn eu dysgu'n iawn. Geiriau newydd a ffres oedden nhw i'm tad-cu a mam-gu, geiriau y byddent wedi dod ar eu traws yn eu tridegau pan gafodd yr englyn ei chyfansoddi, ond i mi, mae wedi bodoli erioed. Mae'r ffrâm nawr yn ddiogel yn nhŷ fy rhieni ac yn cael ei harddangos yn yr un modd i'r genhedlaeth nesaf.



Diolch i Dduw am ein bwyd bob dydd, am deulu a ffrindiau i'w rannu, am ein hapusrwydd ac am ein rhieni a chyndeidiau am ein rhoi ar y trywydd iawn gan obeithio y byddwn yn arwain ein plant ni i'r un cyfeiriad.

***Llun: Y Prifardd W D Williams (1900-85) awdur y geiriau 'O Dad yn deulu dedwydd…..'***

# DIOLCHGARWCH YR OFALAETH - 2019

| | |
|---|---|
| **Y PRIORDY** | |
| **Bore Sul, 6 Hydref am 10** | **Oedfa Blant a Phobl Ifanc am 10<br>gyda<br>Beti-Wyn<br>*Rhoddion at Fanc Bwyd<br>Caerfyrddin*** |
| **Nos Sul 6 Hydref am 5,** | **Oedfa Gymun<br>gyda'n<br>Gweinidog a'r Hybarch<br>Randolph Thomas<br>Swper i ddilyn<br>*Rhoddion y Plant at Fanc Bwyd<br>Caerfyrddin*** |
| | |
| **CANA** | |
| **Nos Iau, 10 Hydref am 7** | **Oedfa Bregethu<br>Y Parchedig Kevin Davies<br>Y Barri a Phenarth<br>Swper i ddilyn** |
| | |
| **BANCYFELIN** | |
| **Nos Iau, 17 Hydref am 7** | **Oedfa Bregethu<br>Y Parchedig Nicholas Bee<br>Swper i ddilyn** |
| | |
| **CARTREF PLAS-Y-DDERWEN** | |
| **P'nawn Gwener, 20 Medi<br>am 2<br>*Noder yr amser gwahanol*** | **Gwasanaeth Diolchgarwch<br>yng nghwmni'n Gweinidog** |



***Mae croseo i bawb<br>ym mhob<br>un o'r gwasanaethau hyn***



# Y GYMDEITHAS - 2019-20

***Cyfarfodydd am 7 ar Nos Lun yn y Festri oni nodir yn wahanol***

**2019**

| Dyddiad | Siaradwr | Darllenydd | Paratoi'r Te |
|---|---|---|---|
| 7 Hydref | John Rees o Raglen Trysorau'r Teulu S4C | ***Yr*** | Nansi Hayes<br>Eirlys Jones |
| 4 Tachwedd<br><br>Cana a Bancyfelin yn ymuno â ni | Atgofion Plant y Priordy<br>Sulwyn Thomas, Rhian Evans a Dai Lloyd | ***enwau*** | Eira Phillips<br>Glenys Thomas<br>Mair Meredith |
| 2 Rhagfyr<br>Y Tabernacl Foelcwan a Thalog yn ymuno â ni, | Aled Scourfield<br>BBC Cymru | ***i*** | Janet Davies<br>Gloria Evans<br>Myfanwy Jones |

**2020**

| | | | |
|---|---|---|---|
| 5 Ionawr<br>Cwrdd yr Ofalaeth ar Ddechrau'r Flwyddyn Newydd | Mwynwen a Huw Jones a'r Teulu | ***ddod*** | Is-bwyllgor<br>Bwyd |
| 6 Chwefror (Iau)<br>Ymuno â'r Tabernacl | Huw Griffiths<br>(Y Ddaear, y Gofod a'r Amgylchedd) | | |
| 2 Mawrth<br>Swper Gŵyl Dewi<br>Caffi Pethau Da | Rebecca Hayes | | |
| 6 Ebrill | Mary Thorley | | Rhyswen Michael<br>Rhian Jones |
| 4 Mai | Oedfa yng Nghapel yr Amgueddfa | | Swper yn yr Ychen Du |
| 21 Mehefin (Sul) | Pererindod yr Ofalaeth i Soar y Mynydd | | |

## GŴYL CANOL DRE

Yn dilyn llwyddiant Gŵyl Canol Dre 2019, hoffem gymryd y cyfle yma i ddiolch yn fawr i chi am eich cyfraniad yn yr Ŵyl eleni. Mae'r Fenter yn werthfawrogol o bob cyfraniad trwy gydol y gwaith trefnu a dros y penwythnos.

Braf oedd gweld dros 4,000 o bobl o ardal Caerfyrddin a thu hwnt yn mwynhau yn yr Ŵyl. Gobeithio i chi fwynhau gymaint ag y gwnaeth y cyhoedd, y staff a'r gwirfoddolwyr. Bydd adroddiad gwerthuso llawn yn cael ei gyhoeddi'n fuan.

Diolch yn fawr i chi unwaith eto am eich cymorth a'ch cyfraniad ac edrychwn ymlaen at gydweithio â chi yn y dyfodol.

**Theatr Genedlaethol Cymru**
***yn cyflwyno***

## Y CYLCH SIALC




***Der kaukasische Kreidekreis***
**(The Caucasian Chalk Circle)**
***gan***
**Bertolt Brecht**

***Trosiad gan Mererid Hopwood***
***gyda cherddoriaeth wreiddiol fyw gan Gwenno***

**Mewn cydweithrediad â Theatrau Sir Gâr**

**2-4 Hydref 2019 – 7.30 – Theatr y Ffwrnes, Llanelli**
**4 Hydref – Sgwrs i ddysgwyr Cymraeg cyn y Sioe – 6.30**
***Tocynnau: ☎0345 226 3510***


# GŴYL YR ORSEDD 2019

***BU*** bwrlwm yng Nghaerfyrddin 8-13 Gorffennaf 2019 i ddathlu 200 mlynedd uno'r Eisteddfod a Gorsedd y Beirdd yng Ngwesty'r Llwyn Iorwg adeg Eisteddfod Caerfyrddin 1819



Bu nifer o'r Priordy'n cymryd rhan yn y dathliadau. Un a fu'n amlwg iawn ym mhob agwedd ar y trefniadau oedd **Peter Hughes Griffiths.**

Roedd Carys Edwards yn un o drefnwyr Arddnagosfa'r Orsedd yn y Llyfrgell a Sulwyn Thomas ac Alun Charles yn hyrwyddwyr y ddarlith gan y Dr Geraint H Jenkins ar 'Iolo Morganwg ac Eisteddfod fawr Caerfyrddin 1819''






***Ein Gŵyl, ein Tref ac Iolo*** yw enw'r gyfrol a gyhoeddwyd ar gyfer y dathlu a'r awduron yn aelodau yn y Priordy, sef **Tudur Dylan Jones** ac **Aled Evans.**



Canwyd Cywydd y Dathlu o waith Tudur Dylan Jones gan Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Myrddin dan hyfforddiant Nia Clwyd ar Noson y Dathlu, Aelod o'r Parti oedd Lleucu Owen.



Ac yn ystod y Daith Gerdded a Chân o Feini'r Orsedd yn y Parc i'r Llwyn Iorwg ar y Nos Wener, cymerwyd rhan gan Steffan, Lleucu, Siwan a Gwenllian. Roedd Iwan Evans a Jayne yn y Grŵp Gwerin ac amryw o aelodau'r Priordy yn cymryd rhan yn y canu cynulleidfaol y tu allan i Neuadd y Dref.

***DIOLC***H i'r trefnyddion am wythnos i'w chofio!

# DRWS AGORED

**FESTRI'R PRIORDY**

***BORE IAU 26 Medi 2019***

***Paned a Bisgedi am 10.30 / Myfyrdod Byr am 11***

***Croeso cynnes i bawb o bob capel ac eglwys***

---

**CWRDD DIACONIAID Y PRIORDY**


**Nos Fercher 11 Medi 2019 am 7 yn y Festri**

*Os oes unrhyw faterion yr hoffech i'r diaconiaid eu trafod, yna rhowch wybod i'r Ysgrifennydd Gohebol mewn da bryd os gwelwch yn dda*

---

# BLYCHAU YN Y CYNTEDD





**COFIWCH AM Y BLWCH STAMPIAU A'R BLWCH CETRYS YN Y CYNTEDD**

---

**DIWRNOD HEDDWCH RHYNGWLADOL**

**DYDD SADWRN 21 MEDI 2019**

**Cymdeithas y Cymod a Chyngor Tref Caerfyrddin a Chyngor Sir Caerfyrddin yn estyn gwahoddiad i ni gwrdd ar y Clos Mawr i godi'r Faner Heddwch Ryngwladol *am* Hanner Dydd (12.00)**

***Gweler Llythyr Gwahoddiad y Maer mewn man arall yn y Papur***

---

**AR Y WE: www. priordy.org** *(yn cynnwys Papur Priordy)*

---

**Beth am droi at Wefan yr Undeb? www.annibynwyr.org**

## ROWNDIAU TERFYNOL MABOLGAMPAU MIC CYNRADD AC UWCHRADD

## LLONGYFARCHIADAU I BAWB A GYMERODD RAN













**Y TYST**
**50c y rhifyn!**
**Cysyllter â Sulwyn Thomas**



**UNDEB YR ANNIBYNWYR CYMRAEG**
**BUGEILIO CEFN GWLAD**

**Amaeth yw asgwrn cefn ein cymunedau gwledig – yn cynnal ein capeli, yr iaith Gymraeg a'n diwylliant. Ond mae ffermio yn gallu bod yn waith unig ac fe all problemau ariannol a phryderon eraill o sawl math effeithio ar iechyd corfforol a meddyliol.**
**Oes gennych chi broblem neu bryder?**
**Codwch y Ffôn**

**0808 281 9490**

**Dyma linell gymorth elusen yr RABI sydd yn helpu tua 2,000 o amaethwyr a'u teuluoedd i ddelio ag ystod eang o broblemau bob blwyddyn. Cewch sgwrs hollol gyfrinachol gyda staff fydd yn medru eich cyfeirio at gymorth arbenigol.**

**Eisiau gwybod mwy am Gyfundeb Annibynwyr Gorllewin Caerfyrddin?**
**Trowch at: cyfundeb.com**



## CRISTION




Cyhoeddir pob deufis gan bwyllgor aml enwad o eglwysi Anghydffurfiol ac Anglicanaidd. Mae'n cynnwys erthyglau ar destunau Cristnogol yng Nghymru, eitemau newyddion, adolygiadau o lyfray, llythyron a chystadlaethau

Pris: £1.50 Am gopi – Cysylltwch â Sulwyn Thomas

***YN DYMUNO CYFAMODI?***

**DR HUW MICHAEL**
**YSGRIFENNYDD Y CYFAMODI**



**Croeso i chi gysylltu ag e!**

## Y DIWEDDAR OERWYN LLOYD

Gyda thristwch y cofnodwn farwolaeth dau aelod o'r Priordy dros wythnosau'r haf. Bu farw Oerwyn Lloyd yn dawel yng Nghartref Glanmarlais, Llandybïe ar 19 Gorffennaf 2019, prin chwe mis wedi claddu'i briod annwyl Marian.

Er ein bod yn cysylltu Oerwyn â'r cartref yn Nôl yr Abaty, Caerfyrddin, treuliodd ei oes yn ffarmio'r fferm deuluol Glanrhyd, Horeb gyda'i briod. Roedd yn amaethwr o'i gorun i'w sawdl, a chafodd foddhad mawr wrth warchod ei stoc ac aredig y tir. Yn ŵr ymarferol, medrai droi'i law at dipyn o bopeth.

Yng Nglanrhyd y magwyd ei fab a'i ferch, Gethin a Glesni, a chafodd Oerwyn a Marian gryn lawenydd yn magu'r wyron a'r wyresau. Ni bu tad-cu balchach erioed.

Bendithiwyd Oerwyn a'i ddiweddar frawd, Gwilym, â lleisiau canu arbennig iawn, ac fe'u magwyd ym myd yr eisteddfodau lleol lle cafodd y ddau frawd gryn lwyddiant yng nghystadleuaeth y canu emyn. Ymfalchïai Oerwyn yn dawel yn ei lwyddiant yn cipio'r wobr gyntaf ar y Canu Emyn yn Eisteddfod y Glöwyr, gyda Gwilym ei frawd yn cyfeilio iddo. Gwnaeth y ddau ymddangosiad ar S4C o ganlyniad i'w llwyddiant. Braint i bawb a oedd yn bresennol yn ei angladd oedd cael eu hatgoffa o'r llais swynol wrth wrando ar recordiad ohono'n canu un o'i hoff emynau.

Ymddeolodd Oerwyn a Marian a symud i Ddôl yr Abaty gan gario'r enw Glanrhyd i'w cartref newydd. Daethant â'u haelodaeth atom o Horeb, Felin-gwm, ac er na chawsant yr iechyd gorau ar ôl ymddeol, gwerthfawrogwyd yn fawr iawn ymweliadau aelodau'r Priordy â nhw ar yr aelwyd, yn enwedig yn ystod cyfnod hir cystudd Marian. Roeddent yn parhau i ymddiddori'n fawr ym mywyd yr eglwys ac yn gwerthfawrogi derbyn copi o Bapur Priordy bob mis.

Cofiwn am Oerwyn (enw a fathwyd oherwydd bod y tir yn wyn dan eira pan anwyd ef) fel gŵr traddodiadol ei ffordd, ac urddasol ei eiriau a'i osgo.

Daeth y teulu a'i ffrindiau agos ynghyd i Amlosga Llanelli ar ddydd Mercher, 31 Gorffennaf i gynnal oedfa i ddiolch am ei fywyd. Gwasanaethwyd gan ei Weinidog.

Estynnwn ein cydymdeimlad â Gethin a Glesni a'u teuluoedd, ynghyd â Beti ei chwaer, a diolchwn am bob gofal a fu ohono.

## Y DDIWEDDAR SIÂN DALIS DAVIES

Bu farw Siân yn dawel ar 21 Gorffennaf yn Ysbyty Glangwili. Magwyd hi yn un o saith ar fferm Glanbran, Gellifedw / Birchgrove, ger Abertawe. Yn ôl y cofnod dyddiadur a ysgrifennwyd gan ei thad, ganwyd Jane (Siân) am 12.10 y bore yn pwyso 11 pwys. Yr un diwrnod, mae'n nodi hefyd yn ei ddyddiadur fod yr ieir wedi dodwy 15 wy, felly roedd yn ddiwrnod cynhyrchiol iawn ar y fferm!

Symudodd y teulu i fferm Penlan, Cei Bach. Wedi cwblhau ei haddysg, fe'i hyfforddwyd fel nyrs yn Ysbyty Guy's yn Llundain ym 1947, cyn nyrsio yng Nghaerdydd ac yn ddiweddarach yng Nglangwili ac Ysbyty Heol Y Prior.
Priododd ag Ifan a bu'r cwpl ifanc yn byw yn Leeds, Caerlŷr, Pontypridd, Sandfields ac Ystalyfera cyn ymgartrefu yn Gorwelion, Llangynnwr.
Magwyd Mari ac Elin gan eu rheini i werthfawrogi pethau gorau bywyd. Roedd Siân yn falch iawn o lwyddiant y merched, a felly hefyd yr ŵyron. Roedd ganddi ddiddordeb ym mywyd holl aelodau'r teulu a bu'n dda am gadw mewn cyswllt â phawb, gan gynnwys aelodau'r Priordy. Roedd yn ofalwraig wrth reddf, a phob amser yn rhoi eraill yn gyntaf. Cofiwn am y modd di-ffws a di-rwgnach y bu iddi ofalu am Ifan dros gyfnod hir ei waeledd.

Roedd Siân, fel Ifan ei phriod, yn hynod gefnogol i'r 'pethau' ac mae llawer i gylch wedi elw o'i chwmni, ei phersonoliaeth hawddgar, ei geiriau doeth a'i dywediadau doniol a ffraeth. Gwelir ei heisiau'n fawr iawn. Bu hithau ac Ifan yn hynod ffyddlon yn Y Priordy. Diolch i ymwelwyr Y Priordy am eu ffyddlondeb yn ymweld â Sian yn Gorwelion, ac yng Nghartref Gofal Erw Hir. Darllenai Bapur Priordy o glaw i glawr bob mis.

Daeth y teulu agos ynghyd i Gapel Gorffwys Login ar ddydd Sul, 28 Gorffennaf i oedfa o ddiolchgarwch am ei bywyd cyn ei chludo'n dawel i Arberth y bore canlynol. Gwasanaethwyd gan ei Gweinidog.

Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â Mari ac Elin a'u teuluoedd gan ddiolch iddynt am eu gofal tyner a ffyddlon o'u mam. Cofiwn hefyd am ei hunig frawd, Jenkin. Bu Emyr Davies mor garedig â llunio'r englyn hyfryd hwn a ddarllenwyd ar ddiwrnod ei hangladd:

Hen leidir yw Tywi lydan – yn dwyn
Dau annwyl i'w hunan;
Dwyn mam o'r byd yn y man
I afael yn llaw Ifan.

## DYLETSWYDDAU
## GOFALWR / GWRESOGWYR Y MIS

| Medi | | Hydref | |
|---|---|---|---|
| **Gofalwr** | **Gwresogwr** | **Gofalwr** | **Gwresogwr** |
| Catrin H Jones | Gareth Gravell | Philip Jones | Gwynfor Davies |

## BLODAU

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Medi | 1 | Ann Griffiths | Hydref | 6 | |
| | 8 | | | 13 | Catrin Haf Williams |
| | 15 | Carys Edwards | | 20 | |
| | 22 | | | 27 | Eleri Thomas |
| | 29 | Janet Davies | | | |

## PARATOI'R BWRDD
## CYMUN

| | | | |
|---|---|---|---|
| Medi | 1 | Bore | Eleri Thomas a Delyth Davies |
| Hydref | 6 | Hwyr | Alison Parsons a Ffion Parsons |

## YMWELWYR

| | |
|---|---|
| Med / Hydrefi | Thelma Evans a June Thomas |

## DARLLENWYR

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Medi** | 1 | | **Hydref** | 6 | |
| | 8 | Mwynwen Jones | | 13 | Heledd Tomos |
| | 15 | Alwen Owen | | 20 | Lleucu Edwards |
| | 22 | Meleri Llwyd O'Leary | | 27 | Nansi Hayes |
| | 29 | | | | |

## CYHOEDDWYR

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Medi** | Catrin Heledd Jones | **Hydref** | Eirlys Jones |

# RHWYDWAITH

***WEL,*** dyma ni ym mis Medi. Gobeithio i chi fwynhau'r haf. Ac wrth i ni ddychwelyd yn un teulu unwaith eto anfonwn ein cofion cynhesaf at y rhai sydd mewn ysbyty neu sydd newydd fod a chael triniaeth, sef Llifon Evans a Nigel Jenkins, Dymunwn yn dda iddynt a phawb arall sy'n anhwylus y dyddiau hyn.

Ein llongyfarchiadau i'n  pobl ifainc ar eu llwyddiant yn yr arholiadau allanol yr haf hwn: Lefel A - Sara Llwyd a Caspar Rolant;  Lefel AS - Steffan Jones, Lleucu Owen, Iestyn O Leary,  Ifan Rogers a Rhiannon Jones; TGAU Bl 11 - Lisa Davies, Lucy Jones, Hanna Medi Lewis, Catrin Owen. TGAU Bl 10 – Gareth Jones. Dymuniadau da i bob un i'r dyfodol ac i Sara yng Ngholeg Celf Caerfyrddin a Caspar ym Mhrifysgol Caer-wysg.

Cafodd ein plant a'n pobl ifainc hwyl arni yn rowndiau terfynol Mabolgampau MIC unwaith eto eleni a mwynhau'n fawr yng Nghanolfan Hamdden Caerfyrddin. Diolch iddynt i gyd am gymryd rhan. Mae lluniau yn y rhifyn hwn.

Bu nifer o'n haelodau ar y cyfryngau dros yr wythnosau diwethaf a dyma i chi rai ohonynt. Gwelwyd Meinir Lloyd ar **Lle aeth pawb?**



sef **Lleisiau Merched y 60au a'r 70au** ar **S4C,** rhaglen arbennig yn dathlu cyfraniad merched i fyd adloniant.  Ar **Dechrau Canu Dechrau Canmol** yn dangos uchafbwyntiau cyfres 2018-19 cynhwyswyd canu o'r Priordy. Bu Beti-Wyn yn cymryd rhan yn y rhaglen **Trysorau'r Teulu** ar **S4C** pan gafwyd cyfle i ymweld â'i chartref yn Abergwili a chraffu'n fwyaf arbennig ar  gorned, lamp glöwyr a hen siôl a rhyfeddu at eu gwerth! Clywyd y Dr Llinos Roberts yn trafod y cyflwr IBS ar **Raglen Siân Cothi** ar **Radio Cymru**. A bu Peter Hughes Griffiths ar **Aur y Noson Lawen** ar **S4C.**





Cawsom dywydd da ar gyfer golff a bu'r Dr Huw Michael a Dennis Jones yn cymryd rhan yn Nhwrnamaint Golff Llyfrau Llafar Cymru'n ddiweddar Ni ddaeth tlysau i'w rhan y tro hwn ond y flwyddyn nesaf amdani bois!'

Yn Eisteddfod Genedlaethol Dyffryn Conwy Llanrwst Tudur Dylan Jones oedd Meuryn y Talwrn a bu hefyd yn rhan o'r tîm fu'n ein tywys drwy Seremoni'r Coroni yn Stiwdio S4C. Llywydd Seremoni'r Fedal Ddrama oedd Carys Edwards. Bu Ceri LLwyd, Elin Wyn a Sara Llwyd yn canu gyda Chôr Llanddarog. Cyfrannodd Sulwyn Thomas at y rhaglen deyrnged i'r diweddar Gari Williams, un o ddiddanwyr mwyaf poblogaidd Cymru, a bu Peter Hughes Griffiths yn cymryd rhan yn y sesiwn yng ngofal **Dyfodol yr Iaith**, sef **Cymreigio'r Cynghorau**. Bu Tudur Dylan Jones ac Aled Evans yn trafod eu cyfrol ***Ein Gŵyl, ein Tref ac Iolo*** ar lwyfan y Llannerch ar y Sadwrn cyntaf. Bu Dylan yn beirniadu'r Delyneg a chystadleuaeth Trosi Drama i'r Gymraeg ac enillodd ar yr Englyn Crafog a'i ewythr ac un o gyn-weinidogion y Priordy, T James Jones, oedd Bardd y Gadair. O ddiddordeb i ni yma yn ogystal, enillodd Elin Meek (y mae teyrnged i'w diweddar fam yn y rhifyn hwn o'r Papur) ar y Cywydd.




Cynhaliwyd Treialon Cŵn Defaid Cenedlaethol Cymru 2019 ddechrau Awst ym Mharc Dinefwr yn Llandeilo ac un a fu'n cynorthwyo yn y Treialon fel sylwebydd oedd Sulwyn Thomas.



Bu llawer o ddathlu ymhlith aelodau'r Priordy'n ddiweddar! Ar 31 Gorffennaf ganed merch fach i Steve a Lowri, chwaer fach newydd i Gabriella ac wyres newydd i Phil a Rosan Saunders. Llongyfarchiadau mawr!





Dathlodd Nano Evans ben-blwydd arbennig yn 90 oed ar 18 Awst 2019 ac mae llun ohoni'n derbyn rhodd gan ein Gweinidog ar ran y Priordy yn y Papur hwn. Ein cofion cynhesaf at Nano a'r teulu.

***A DATHLODD*** Rosan a Phil Saunders a Chris a Huw Lloyd eu priodas ruddem ddechrau'r mis ac yna Des a Nansi Hayes eu priodas ddeimwnt ar 21 Awst. Llongyfarchiadau a dymuniadau da iddynt i gyd.



**Unrhyw newyddion ar gyfer rhifyn Hydref i'n Gweinidog neu Alun Charles**

**CYDYMDEIMLAD**

**Estynnnwn ein cydymdeimlad â Christine a Seamus (Dôl yr Abaty a Tipperary) ar golli brawd-yng-ngyfraith Christine, sef Stephen Jones, gweddw'r diweddar Cynthia. Bu'r angladd ym Mharc Gwyn ar 13 Awst yng ngofal ein Gweinidog. Meddyliwn am y teulu cyfan yn eu hiraeth a'u colled.**

**DIOLCH YN FAWR**



**Diolch i Beti-Wyn, Lowri Edwards a Catrin Wyn Davies am y lluniau'r mis hwn**

| CYFUNDEB ANNIBYNWYR GORLLEWIN CAERFYRDDIN | |
|---|---|
| CWRDD CHWARTER<br>HEBRON<br>DYDD IAU, 12 MEDI 2019<br>Y Gynhadledd am 4.00<br>Cyfarfod yr hwyr am 7 |  |
|  | CWRDD CHWARTER<br>HENLLAN AMGOED<br>DYDD IAU 28 TACHWEDD 2019<br>Y Gynhadledd am 10.30<br>Cyfarfod y prynhawm am 1.30 |

**EGLWYS ANNIBYNNOL PANT-TEG**



**OEDFA I DDATHLU 350 MLYNEDD ERS SEFYDLU'R ACHOS YN 1669**

**PRYNHAWN SUL 15 MEDI 2019 – 2.00PM**

**Bydd lluniaeth ysgafn yn y Festri ar ol y gwasanaeth**

**Croeso cynnes i bawb**



# Y SULIADUR



| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Medi** | **1** | *Bore*<br>*Hwyr* | Cwrdd Plant a Phobl Ifainc gyda'n Gweinidog<br>Ein Gweinidog | **Cymun** |
| | **8** | *Bore* | Ein Gweinidog | |
| | **15** | *Bore*<br><br><br>*Hwyr* | Ein Gweinidog<br>Casgliad at y Genhadaeth (mewn amlen gyda'ch rhif a'ch enw ar y blaen)<br>Ymarfer ar gyfer y Gymanfa Ganu yn y Priordy am 7 | |
| | **22** | *Bore*<br>*Hwyr* | Ein Gweinidog<br>Ymarfer ar gyfer y Gymanfa Ganu yn y Priordy am 7 | |
| | **29** | *Bore*<br><br>*Hwyr* | Oedfa Hwyl Mawl Medi i'r Plant a'r Bobl Ifainc yn y Priordy am 10<br>Cymanfa Ganu i'r Oedolion yn y Priordy am 5<br>Manylion pellach y tu mewm | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Hydref** | **6** | *Bore*<br><br>*Hwyr* | Cwrdd Diolchgarwch y Plant a'r Bobl ifainc gyda'n Gweinidog<br>Cwrdd Pregethu a Swper Diolchgarwch gyda'r Hybarch Randolph Thomas a'n Gweinidog<br>Cesglir rhoddion at Fanc Bwyd Caerfyrddin | **Cymun** |
| | **13** | *Bore* | Ein Gweinidog | |
| | **20** | *Bore*<br>*P'nawn* | Ein Gweinidog<br>Cinio Dydd Sul yr Ofalaeth yng Ngwesty'r Llwyn Iorwg am 1.00. Manylion y tu mewn. | |
| | **27** | *Bore*<br>*P'nawn* | Y Parchedig Ddr John Tudno Williams<br>Oedfa i'r Ofalaeth ym Mancyfelin gyda'r Parchedig Ddr John Tudno Williams | |

**CALENDR Y PLANT A'R BOBL IFAINC**

**✓ Ysgol Sul PIP - Pobl Ifainc y Priordy - Dim Ysgol Sul CP – Cwrdd Plant EH –Erw Hir HMM- Hwyl Mawl MedI SS – Sgiliau Syrcas gyda Rosan**

| Medi | | | | | Hydref | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **1** | **8** | **15** | **22** | **29** | **6** | **13** | **20** | **27** |
| **CP** | **✓<br>PIP** | **✓** | **✓EH<br>PIP** | **HMM** | **CP** | **✓ /PIP<br>ss** | **✓<br>PIP** | **-** |